

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### BIL TWF A SEILWAITH

#### DIWYGIADAU I DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1988

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Twf a Seilwaith sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

#### Y Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol"). Caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth parthed Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sydd ag effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cyflwynwyd y Bil Twf a Seilwaith (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Hydref 2012. Ceir copi o'r Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2012-13/growthandinfrastructure.html>

#### Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Mae'r Bil yn cael ei noddi gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Prif ddiben y Bil yw annog twf economaidd a chynyddu buddsoddiad. Ceir tair prif adran o fewn y Bil: hybu twf a hwyluso'r ddarpariaeth o seilwaith a materion cysylltiedig; darpariaethau eraill yn ymwneud â seilwaith: mesurau economaidd.

Prif elfennau'r adran o'r Bil sy'n ymwneud â hybu twf a hwyluso'r ddarpariaeth o seilwaith, a materion cysylltiedig yw: yr opsiwn i gyflwyno ceisiadau cynllunio yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl i awdurdod cynllunio lleol gael ei ddynodi (cymal 1); ehangu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyfarnu costau rhwng y partïon mewn apeliadau cynllunio (cymal 2); cyfyngiadau ar y pwerau sydd gan awdurdodau cynllunio lleol i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu â cheisiadau cynllunio (cymal 4); caniatáu ar gyfer ailystyried y gofynion economaidd anhyfyw sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a gynhwysir mewn cytundebau adran 106 (cymal 5); eithrio'r hawl i gyflwyno cais i gofrestru tir y cynigir ei ddatblygu fel meysydd tref neu bentref er mwyn sicrhau na chaiff y system ei defnyddio ar gyfer atal datblygiad neu

ei ohirio, gan ddiogelu meysydd cofrestredig presennol (cymal 6); a'i gwneud yn bosibl i lacio'r gofynion mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 109 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 ar gyfer gosod cyfarpar cyfathrebu electronig (cymal 7).

Prif elfennau'r adran o'r Bil sy'n cynnwys darpariaethau eraill yn ymwneud â seilwaith (cymalau 8 i 21) yw: addasu gweithdrefn seneddol arbennig er mwyn sicrhau y bydd y weithdrefn yn ystyried gorchmynion eraill o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Deddf Caffael Tir 1981, dim ond i'r graddau y mae'r rhain yn awdurdodi caffael yn orfodol dir sydd o fewn categori arbennig; galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddyd yn pennu y gall prosiectau busnes a phrosiectau masnachol o arwyddocâd cenedlaethol gael eu hystyried o dan y gyfundrefn seilwaith a gynhwysir yn Neddf Cynllunio 2008, fel y gall y ceisiadau hyn fynd rhagddynt yn gyflymach nag y maent ar hyn o bryd; ac yn yr un modd gyflymu prosesau ar gyfer deiliaid cydsyniadau o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989, gan eu rhoi yn yr un sefyllfa â deiliaid gorchmynion caniatâd datblygu a wneir o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Bydd hyn yn golygu bod modd iddynt gael eu hamrywio gan yr Ysgrifenyddion Gwladol perthnasol er mwyn ystyried, er enghraifft, newidiadau mewn technoleg a dylunio.

Mae llawer o ddarpariaethau'r Bil, er nid y cyfan ohonynt, yn diwygio'r gyfraith yn Lloegr yn unig ac nid ydynt yn gymwys i Gymru neu maent yn ailgyflwyno'r gyfraith bresennol yng Nghymru.

### **Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

5. Mae Adrannau 41 a 52 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn pennu y dylai ymarfer ailbrisio gael ei gynnal ym 1990 a phob pum mlynedd ar ôl hynny. O ran Lloegr, mae cymal 22 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn newid dyddiad yr ymarfer nesaf o ailbrisio ardrethi annomestig o 1 Ebrill 2015 i 1 Ebrill 2017. Ers i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Hydref 2012, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o ddarpariaethau drwy gyfrwng gwelliannau gan y Llywodraeth. Y gwelliant perthnasol y gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn ei gylch ar 12 Rhagfyr ar gais Llywodraeth Cymru yw cymal 22(a) sy'n diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn a fydd yn eu galluogi i newid dyddiad yr ymarfer nesaf o ailbrisio ardrethi annomestig i 1 Ebrill yn un ai 2016, 2017, 2018, 2019 neu 2020. Bydd y gwelliant hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ailsefydlu'r cylch ailbrisio bob pum mlynedd. Bydd amseriad hyn yn dibynnu ar y dyddiad a ddewisir ar gyfer yr ymarfer ailbrisio nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn, i'r graddau y maent yn ymwneud ag amseriad yr ymarfer ailbrisio Ardrethi Annomestig, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y nodir ym Mhwnc 12 (Llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r mater dan sylw yn cyfeirio'n benodol at gyllid Llywodraeth leol, sy'n fater y bernir ei fod gan amlaf yn cynnwys materion fel y dreth gyngor ac ardrethi annomestig.

Bydd y pŵer ar gyfer gwneud gorchmynion, ar y ffurf y caiff ei ddrafftio, y cyfeirir ato uchod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn ddrafft ynghylch penderfyniadau cadarnhaol yn y Cynulliad. Bernir bod y weithdrefn hon yn sicrhau lefel briodol o graffu gan y Cynulliad. Mae'r weithdrefn ynghylch penderfyniadau cadarnhaol yn fath llym o reolaeth gan y Cynulliad sy'n golygu ei bod yn ofynnol sicrhau cymeradwyaeth bositif gan aelodau'r Cynulliad. Golyga hyn y caiff yr Aelodau hyn gyfle i graffu ar orchymyn a gaiff ei wneud o dan y pŵer newydd.

### **Manteision defnyddio'r Bil hwn**

6. Cred Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan ei fod yn cynrychioli'r ddeddfwriaeth fwyaf priodol a chymesur er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru cyn gynted â phosibl. Gallai aros i ddarpariaethau tebyg gael eu cynnwys mewn Bil Cynulliad arwain at oedi a fyddai'n golygu bod Cymru o dan anfantis o'i gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. Bydd y darpariaethau yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth briodol yn unol â blaenoriaethau Cymru.

### **Goblygiadau Ariannol**

7. Nis rhagwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru na fydd modd eu hysgwyddo fel rhan o'r rhwymedigaethau sydd arni ar hyn o bryd, o ganlyniad i weithredu darpariaethau perthnasol y Bil Twf a Seilwaith.

**Edwina Hart AC**

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth  
Rhagfyr 2012**